



# Cymunedau Gwledig Creadigol

## Gorolwg a meini prawf cymhwysedd Gŵyl Ffilm y Fro

### A ydych eisiau'r cyfle i gynnal digwyddiad fel rhan o Wyl Ffilm y Fro?

Mae Cymunedau Gwledig Creadigol yn lansio Gŵyl Ffilm ym Mro Morgannwg, gan roi cyfle i fusnesau a sefydliadau brofi hyfywedd hyn. Bydd yr ŵyl hon yn cynnal digwyddiadau dros dro nad ydynt yn unigryw i ddangosiadau mewn amrywiaeth o leoliadau. A ydych chi'n brofiadol o ran cynnal digwyddiadau? Os oes gennych syniad ar gyfer digwyddiad newydd neu os ydych am dreialu digwyddiad presennol mewn lleoliad newydd ac unigryw, gallwn eich cefnogi mewn nifer o ffyrdd.

### Cefndir

#### Beth wnaeth ysbrydoli'r project?

Mae 'Gŵyl Ffilm y Fro', a elwir yn 'The Hidden Here' ar hyn o bryd, wedi derbyn cyllid trwy Gyngor Bro Morgannwg a Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 (RDP), a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Bellach, bu'r project penodol hwn yn datblygu ers 18 mis, ac mae'r cyllid yn ei le, gan ei fod yn cael ei ystyried yn gyfle delfrydol i ddatblygu'r Fro ymhellach, trwy ddefnyddio lleoliadau hanesyddol yn ogystal â chefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol lleol i greu cynigion o ansawdd i fanteisio ar y synnwy'r o le trwy ddefnyddio ffilm fel cyfrwng.

Bydd yr ŵyl hon yn dathlu ffilm mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws y Fro, gan gynnig palet o weithgareddau a fydd yn fwy cynhwysfawr na dangosiadau yn unig, o gofio y bydd cymuned a thwristiaid fel ei gilydd yn mynd i'r sinema i'w brofi mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r archwaeth am wyliau ffilmau yn y Fro wedi parhau i dyfu, gyda sinemâu gwledig, a ddatblygwyd yn wreiddiol drwy gyllid CGC, yn ffynnu o ran nifer, yn ogystal â lleoliadau sinema awyr agored yn denu torfeydd, a phrofiad sinematig pwrpasol yn gwerthu allan.

### Gweledigaeth

#### Beth rydym ei eisiau?

Ein gweledigaeth yw y bydd gennym gyfres o fath gwahanol o ddigwyddiadau dros dro o 26<sup>ain</sup> Medi tan 6<sup>ed</sup> Hydref 2019 mewn llu o leoliadau ar draws Bro Morgannwg. Gallai mathau o ddigwyddiadau gynnwys dangosiadau dan do/yn yr awyr agored, sinema wedi'i bweru â phedal, digwyddiadau ffilm trochi/profiad, gweithdai gan greawdwyr, sgysiau gan awduron a/neu gyfarwyddwyr yn ogystal â chwis ffilm mawreddog gyda gwisg ffansi, teithiau lleoliadau ayb. Gall yr holl ddigwyddiadau hyn gael eu cefnogi gan fwytai dros dro, bariau dros dro, ayb. gan greu amgylchedd "gŵyl". Rydym yn rhagweld y bydd y digwyddiadau yn denu ymwelwyr presennol a newydd i Fro Morgannwg, yn ogystal â darparu gweithgareddau ar gyfer y trigolion lleol. Rydym eisiau rhoi prawf ar hyfywedd gwahanol fathau o ddigwyddiadau dros dro, drwy ddefnyddio seilwaith dros dro gwahanol a/neu ddefnyddio adeiladau hanesyddol a/neu rai presennol ledled y Fro.

## **Syniadau: Y mathau o ddigwyddiadau y byddem yn edrych i'w cefnogi, ond teimlwch yn rhydd i arloesi.**

- Gweithdai ar wallt, colur, dylunio llwyfan a set, ysgrifennu sgriptiau, gwneud ffilmiau, byrddau stori, animeiddiadau, defnyddio technoleg.
- Sgyrsiau gan gyfarwyddwyr celf, rheolwyr lleoliad, sgriptwyr/nofelydd i gyfarwyddwyr ffilm a chynhyrchwyr.
- Bwytaï a bwyd dros dro sy'n gweddu i genre y ffilm h.y. coginio Ffrengig (Julia & Julia) Bwyd Môr (ffilmiau syrffio) ayb.
- Stondinau bwyd dros dro, fel cŵn poeth, popcorn, gwneuthurwyr hufen ia lleol, bar jin, te hwyr, profiad bwyta gourmet, blasu gwin.
- Cwis ffilm / gwisg ffansi / dawnsio / disgo troed-rolio (h.y. gweddu i ddangosiadau ffilmiau fel Strictly Ballroom / Saturday Night Fever / Whip It).
- Sgyrsiau am ffilmiau h.y. dangosiadau a allai annog trafodaeth neu ddatl wleidyddol a/neu hanesyddol.
- Dangosiadau genre fel ffilmiau syrffio gyda sgyrsiau gan ecolegwyr / sesiynau codi sbwriel / crefftau o ddeunydd sbwriel ayb.
- Syniadau genre eraill sy'n gweddu i hanes y Fro, megis môr ladron, lladron pen ffordd, neu ddangosiadau clasurol fel Citizen Kane (Randolph Hurst yn The Vale) Agatha Christie a chinio lle ceir llofruddiaeth (Murder A la Carte).
- Perfformiadau byw megis cerddoriaeth i ffilm fud Charlie Chaplin neu bianydd yn chwarae sgôr ffilm a/neu fand yn perfformio caneuon yn ymwneud â thema ffilmiau h.y. Johnny Cash "Walk the Line".
- Sinema pŵer pedal dan do ac yn yr awyr agored.
- Dangosiadau trochi/awyr agored h.y. Blair Witch in the Woods / Season of the Witch gyda rhyngweithiad actorion byw/dangosiadau 'drive in'.

## **Pa gefnogaeth a gaf os wyf yn ymuno â'r peilot?**

Dyma flas o'r math o gymorth y gallwch ei ddisgwyl gennym os cewch eich derbyn ar y rhaglen beilot:

- **Cefnogaeth 1-1**

Byddwch yn derbyn cefnogaeth un i un gan un o'n swyddogion i'ch helpu i ddatblygu logisteg y digwyddiad a sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i dreialu eich gweithgaredd. Bydd llawer o'r cymorth hwn yn debyg i eraill sy'n datblygu eu gweithgareddau a bydd cyfleoedd i gwrdd â'ch gilydd a rhwydweithio gyda'ch cyfoedion os yw'n briodol. Efallai bod gennych anghenion cymorth penodol hefyd a byddwn yn gwneud ein gorau i ddiwallu'r anghenion hynny hefyd.

Fe'ch gwahoddir i nifer o sesiynau i'ch helpu i ddatblygu eich digwyddiad, ac er y bydd y rhain yn ddewisol, anogir eich presenoldeb. Er ein bod yn disgwyl i chi neu arweinwyr sy'n cymryd rhan yn y peilot fod yn brofiadol yn y syniad o'ch dewis ddigwyddiad, bydd gwybodaeth a fydd yn newydd i gyfranogwyr profiadol hyd yn oed, o ran cydweithio i drefnu digwyddiadau ar draws y Fro.

- **Ffotograffiaeth Broffesiynol**  
Byddwch yn cael cynnig mynediad i unrhyw ffotograffau a dynnwyd yn y digwyddiadau peilot dros dro.
- **Seilwaith ac Offer Digwyddiadau**  
Efallai y bydd Cymunedau Gwledig Creadigol yn gallu darparu rhywfaint o offer digwyddiadau, gan ddefnyddio offer a ddyrannwyd i ddigwyddiadau ym Mro Morgannwg drwy'r rhwydwaith digwyddiadau. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar faint a graddfa'r digwyddiad ac argaeledd yr offer. Mae croeso hefyd i gyfranogwyr ddod â'u seilwaith eu hunain lle bo'n briodol.
- **Marchnata a PR**  
Bydd Cymunedau Gwledig Creadigol yn comisiynu ymgyrch farchnata a chysylltiadau cyhoeddus a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y peilot digwyddiad dros dro, a fydd yn cynnwys yr holl weithgareddau peilot hefyd. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:
  - ✓ Tudalen we newydd ar gyfer y peilot ar ein tudalen Cymunedau Gwledig Creadigol ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.
  - ✓ Cynnwys ar wefan Croeso i'r Fro.
  - ✓ Creu gwefan newydd.
  - ✓ Deunydd hyrwyddo wedi'i argraffu ar gyfer y cyfnod peilot, fel taflenni.
  - ✓ Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol.
  - ✓ Hysbysebion yn y wasg leol a rhanbarthol.
  - ✓ Datganiadau i'r wasg, yn lleol a rhanbarthol.
  - ✓ A mwy!
- **Gwerthuso**  
Byddwn yn eich helpu i werthuso eich peilot trwy roi offer i chi asesu pob agwedd ar eich gweithgaredd peilot cyn, yn ystod, ac ar ôl y cyfnod peilot.
- **Cefnogaeth ar ôl y digwyddiad**  
Ar ôl i chi gyflwyno a gwerthuso eich gweithgareddau peilot, byddwn yn cynnig cymorth i ddatblygu eich syniad trwy eich cyfeirio at gyngor busnes perthnasol, cyllid os yw'n berthnasol, a rhwydweithiau priodol.

## Cyflenwi'r project

Cynhelir y peilot o 26<sup>ain</sup> Medi – 6<sup>ed</sup> Hydref 2019.

### Cam 1 – Ffenestr Mynegi Diddordeb a'r broses ymgeisio (22<sup>ain</sup> Ebrill - 11<sup>eg</sup> Mehefin)

- Gwahoddir ceisiadau hyd at 11<sup>eg</sup> Mehefin 2019
- Proses sgorio 12<sup>fed</sup> Mehefin – 20<sup>fed</sup> Mehefin 2019
- Dewis cyfranogwyr Rownd 1<sup>af</sup> erbyn 21<sup>ain</sup> Mehefin
- Dewis cyfranogwyr 2<sup>il</sup> Rownd erbyn 10<sup>fed</sup> Gorffennaf

## **Cam 2 – Sesiynau / ymweliadau safle /cynllunio marchnata a digwyddiadau gyda chyfranogwyr (21<sup>ain</sup> Mehefin – 12<sup>fed</sup> Awst)**

Cynhelir cyfarfodydd/sesiynau gyda'r trefnwyr digwyddiadau arweiniol i fynd drwy logisteg a threfniadau digwyddiadau gyda thimau mewnol fel trwyddedu, iechyd a diogelwch a chynllunio. Bydd cynllun digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad a chynllun marchnata ar gyfer y peilot hefyd yn ffurfio rhan o'r sesiynau hyn gyda'r cyfranogwyr dethol

## **Cam 3 – Marchnata'r peilot (15<sup>fed</sup> Gorffennaf – 6<sup>ed</sup> Hydref)**

- Lansio'r Ymgyrch Farchnata

## **Cam 4 – Gŵyl (26<sup>ain</sup> Medi – 6<sup>ed</sup> Hydref 2019)**

- Cyfnod yr Ŵyl

## **Cam 5 – Gwerthuso a lledaenu (Hydref – Rhagfyr 2019)**

Yn ogystal ag adroddiad gwerthuso o'r project, caiff fideo ei chreu o'r peilot yn ogystal â phecyn cymorth i ledaenu'r wybodaeth. Disgwylir i gyfranogwyr gyfrannu canfyddiadau tuag at werthuso llwyddiant y peilot.

## **Meini prawf cymhwysedd**

### **Pwy all gymryd rhan?**

- Trydydd sector - grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol.
- Busnesau a mentrau cymdeithasol.
- Rhwydweithiau thematig.
- Sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- Trigolion y Fro.
- Aelodau LAG y Fro.
- Swyddogion CGC

Os oes angen cymorth ariannol ar eich syniad, mae'n debygol y bydd disgwyl i'ch sefydliad neu'ch rhwydwaith ddarparu arian cyfatebol sydd o leiaf 20% o gyfanswm cost y project. Gall arian cyfatebol fod yn gyfraniadau arian parod neu gyfraniadau mewn nwyddau gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Bydd CGC yn eich helpu i gyfrifo'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ariannu'r syniad.

Yn olaf, bydd ceisiadau am arian yn cael eu hystyried, o £250 - £5000. Rhoddir ystyriaeth i'r gyllideb gyffredinol, y swm cymesur yr ydych yn gofyn amdano, sut mae eich project yn bodloni amcanion y project a gwerth am arian.

### **A ydych yn gymwys i wneud cais am beilot dros dro?**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i gymryd rhan yn y peilot digwyddiad dros dro, mae angen i chi:

- Gynnig syniadau i'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol.
- Bod yn brofiadol neu fod â phartner sydd â phrofiad yn y syniad digwyddiad dros dro sy'n cael ei gynnig.
- Bod â syniad am yr amser o'r dydd a'r dyddiad ar gyfer y digwyddiad.
- Gynnig digwyddiad sy'n hygyrch i'r cyhoedd naill ai trwy docyn/ archebu neu fel digwyddiad agored.
- Bod â syniad am leoliad posibl ar gyfer eich digwyddiad
- Gweithio ar draws / gyda rhanddeiliaid eraill ym Mro Morgannwg gan ychwanegu "agwedd yr Ŵyl" fel darparu bwyd dros dro, hyfforddiant, gweithdai ayb.

Wrth ddewis cyfranogwyr ar gyfer y peilot, rhoddir ystyriaeth i raddfa gyffredinol y digwyddiad a'r refeniw posibl a gynhrychir. Bydd cyfranogwyr a ddewisir i gymryd rhan yn y peilot yn:

- Cydweithio â phartneriaid digwyddiadau eraill lle bo modd.
- Cynnig syniad a chynnig digwyddiad o ansawdd gyda phwyslais ar dwristiaeth.
- Marchata'r peilot a'u digwyddiad unigol trwy eu sianelau a'u gwefannau cyfryngau eu hunain.
- Cyfrannu eu canfyddiadau i broses werthuso'r project.
- Mynychu cyfarfod gyda phanel cyswllt digwyddiadau y cyngor os yw'n briodol i'ch digwyddiad

### **Beth fyddai'n fy anghymwysu?**

- Digwyddiadau preifat nad ydynt ar gael i'r cyhoedd.
- Os nad ydych yn brofiadol neu os nad oes gennych bartner arweiniol sydd â phrofiad yn y digwyddiad dros dro rydych chi wedi'i ddewis
- Digwyddiadau nad oes modd eu cyflawni'n rhesymegol yn yr amserlen
- Costau sy'n dod dan Atodiad A fel rhan o ganllawiau LEADER

Os nad ydych yn gymwys i wneud cais am y peilot digwyddiad dros dro ar yr adeg hon, byddwn yn helpu i'ch cyfeirio at sefydliadau cymorth eraill a allai roi cymorth.

### **Proses gymeradwyo**

Unwaith y derbynnir y cais, bydd y grantiau'n cael eu hasesu gan y Panel. Bydd hwn yn wiriad cymhwysedd ar yr arian. Caiff projectau eu sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A yw'r ymgeisydd yn dangos syniad project gwreiddiol, gan weithio gyda busnesau lleol neu grwpiau cymunedol yn y Fro? (C2 yn y cais)
- A yw'r ymgeisydd yn dangos pa mor arloesol yw'r gweithgaredd hwn i'r gymuned hon? (C2 yn y cais)
- A yw'r ymgeisydd yn dangos gwerth am arian? Swm yr arian y gofynnwyd amdano a faint o arian cyfatebol a sicrhawyd. (C6 yn y cais)
- A yw'r ymgeisydd yn dangos bod y gweithgaredd yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol (C10 yn y cais)
- A yw'r ymgeisydd yn dangos parodrwydd i rannu eu profiadau dysgu? (C9 yn y cais)

Os caiff y project ei gefnogi, anfonir llythyr cyllid erbyn 10<sup>fed</sup> Gorffennaf. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd lofnodi'r llythyr cyllid ac yna byddai'r grŵp yn gymwys i wario arian.

### **Sut allai gyfranogi?**

Dylai sefydliadau, busnesau neu rwydweithiau sydd â diddordeb gysylltu â Chymunedau Gwledig Creadigol i ddechrau, ac yna bydd y Swyddog Adfywio Gwledig (Ffilm) yn cysylltu â chi i drafod eich syniad digwyddiad ymhellach. Bydd y swyddog yn cynnal gwiriadau cychwynol i benderfynu a yw syniad eich digwyddiad yn gymwys ar gyfer y peilot.

### **Cyswllt:**

Cymunedau Gwledig Creadigol  
Hen Neuadd  
Stryd Fawr  
Y Bont-faen  
CF71 7AH

**Ffôn:** 07725951899

**E-bost:** [msims@bromorgannwg.gov.uk](mailto:msims@bromorgannwg.gov.uk)

**Twitter:** @ruralvale

**Facebook:** /CreativeRuralCommunities

**Gwefan** [www.creativeruralcommunities.co.uk](http://www.creativeruralcommunities.co.uk)

## **Atodiad A: Costau nad ydynt yn gymwys**

Copi o'r rhestr o nodiadau canllawiau LEADER:

Nid yw'r eitemau neu'r mathau canlynol o wariant yn gymwys o dan y mesur LEADER:

- Prynu stoc masnachu
- Prynu tir
- Prynu adeiladau
- Prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw fath arall o gludiant personol (at ba bynnag ddiben)
- Prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (fel lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl)
- Unrhyw waith safle ffisegol neu wariant arall a gafwyd cyn dyddiad dechrau'r project heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y grantiwr
- Gwaith dros dro nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithredu'r project
- Costau cynnal a chadw ar gyfer adeiladau, offer neu offer presennol
- Amnewid tebyg am debyg
- Costau sy'n gysylltiedig â chontract prydesu fel maint elw'r prydeswr, costau ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- Costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y gellir eu hadennill gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff neu iawndal a delir i drydydd partion am ddifeddiannu, ayb
- Gorbenion a ddyrannwyd neu a ddosrannwyd ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer costau tebyg yr eir iddynt gan fecanweithiau cyflenwi tebyg eraill
- Gwariant tybiannol
- Taliadau am weithgaredd o natur wleidyddol
- Dibrisiant, amorteiddio ac amhariad ar asedau a brynwyd gyda chymorth Grant Ewropeaidd
- Darpariaethau
- Rhwymedigaethau amodol
- Argyfyngau
- Difidendau i gyfranddalwyr
- Taliadau llog (oni bai eu bod o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol cymeradwy)
- Taliadau gwasanaeth sy'n codi ar brydlesi cyllid, trefniadau hurbrynu a chredyd
- Costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- Costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni masnachol i ben
- Taliadau am bensiynau heb eu hariannu
- Iawndal am golli swydd
- Dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, cyfarwyddwyr partner, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- Taliadau am anrhegion a rhoddion
- Difyrrwch personol (gan gynnwys alcohol)
- Dirwyon statudol a chosbau
- Dirwyon a iawndaliadau troseddol
- Costau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha
- TAW adenilladwy

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/leader-guidance.pdf>





**creative**   
**RURAL COMMUNITIES**

VALE of GLAMORGAN  
  
BRO MORGANWGW

   
Creddi AmantHyddol Ewrop a  
Eiddo Cymdeithas Gwladol  
European Agricultural Fund for  
Rural Development  
Eiddo Gwladol a'r Eiddo Ewrop  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



## Cais am Ddigwyddiad Gŵyl Ffilm y Fro

Atebwch yr holl gwestiynau yn y blychau ac ymhelaethwch y blychau os oes angen. Cyfeiriwch at y ddogfen trosolwg a meini prawf cymhwyster am wybodaeth ategol.

Cais Gŵyl Ffilm	
Enw'r busnes / sefydliad / rhwydwaith:	
A yw hwn yn gynnig digwyddiad ar y cyd? Os felly, rhestrwch yr holl fusnesau dan sylw.	
Enw'r partner arweiniol:	
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:	
Cod Post:	
Rhif Ffôn:	
Rhif ffôn Symudol:	
Cyfeiriad e-bost:	
Tudalennau gwe busnes a chyfryngau cymdeithasol	

--	--

**1. Eich Busnes**

Disgrifiwch yn fyr eich gweithrediad busnes cyfredol a'ch math o fusnes. Ystyriwch:

- Faint o bobl sy'n rhan o'r busnes?

--

**• Y Digwyddiad**

Disgrifiwch yn gryno eich syniad am ddigwyddiad. Ystyriwch:

- Pwy yw eich marchnad darged?
- Beth yw maint a graddfa eich digwyddiad?
- Faint o bobl fydd eich digwyddiad yn eu cynnwys?
- Beth yw lleoliad eich digwyddiad?
- A fydd angen tocyn i'ch digwyddiad neu a yw'n ddigwyddiad agored?
- Sut fydd pobl yn archebu eich digwyddiad? A fydd eich digwyddiad yn cael effaith gadarnhaol ar Fro Morgannwg?
- A fyddwch chi'n cefnogi busnesau lleol eraill h.y. gyda bwyd dros dro / arlwyo / dylunio / hyfforddiant / gweithdai?

--

## 2. Dyddiadau ac amseroedd

- Dywedwch wrthym beth yw eich dyddiadau digwyddiad arfaethedig, amser o'r dydd a nifer y diwrnodau y bydd eich digwyddiad yn cael ei gynnal (nodwch fod rhaid iddynt fod rhwng 26<sup>ain</sup> Medi - 6<sup>ed</sup> Hydref 2019)

## 3. Seilwaith y digwyddiad

- A oes gennych unrhyw seilwaith digwyddiadau eich hun?
- A oes angen seilwaith digwyddiadau arnoch i gefnogi eich digwyddiad? E.e. cegin, pabell fawr fasnachol, marsialiaid. Rhestrwch y seilwaith sydd ei angen isod:

## 4. Asesu risg

- Sut fyddwch chi'n asesu'r risgiau i ddiogelwch y cyhoedd yn eich digwyddiad?

## 5. Costiadau

- Beth yw eich cyllideb ar gyfer y digwyddiad a swm y cais am grant sydd ei angen?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau'r elfen 20% o arian cyfatebol?

### **8. Profiad**

- Oes gennych chi brofiad o redeg eich digwyddiad arfaethedig? (rhowch enghreifftiau ac unrhyw dystiolaeth)

### **9. Help a Chyngor**

- Pe byddech yn cael eich dewis i gymryd rhan yn y peilot, beth fyddech chi'n hoffi ei ddysgu o gymryd rhan?
- Pa fath o sesiynau neu gyngor fyddai'n ddefnyddiol i chi ar gyfer cynnal eich digwyddiad?

### **10. Marchnata**

- Er y bydd Cymunedau Gwledig Creadigol yn cynnal ymgyrch farchnata i hyrwyddo'r rhaglen beilot o ddigwyddiadau, sut fyddwch chi'n marchnata eich digwyddiad?
- Pwy yw eich marchnad darged?

### **11. Cymwysterau ac Yswiriant**

- A oes angen i chi gael unrhyw gymwysterau diwydiant er mwyn rhedeg eich digwyddiad? Os felly, a oes gennych chi'r rhain?
- A oes safon diwydiant? Os yw'n berthnasol, rhestrwch isod.
- Pa yswiriant sydd gennych ar hyn o bryd mewn perthynas â'ch gweithgaredd? (Sylwer, gallwch nodi unrhyw yswiriant perthnasol y bwriadwch ei gael, neu nodi bod angen cymorth arnoch i benderfynu pa fath o yswiriant y bydd ei angen arnoch.)

### **12. Gwerthuso**

- Pa fonitro a gwerthuso fyddwch chi'n ei wneud o'ch digwyddiad?
- Fel rhan o'r peilot, bydd disgwyl i chi gyfrannu at werthuso eich digwyddiad dros dro, gall hyn gynnwys:
  - Adrodd ar niferoedd / proffiliau ymwelwyr
  - Amcangyfrif costau cyffredinol y digwyddiad
  - Darparu ffotograffau
  - Cefnogi arolygon ymwelwyr a gwerthusiad anecdotaidd yn ystod ac ar ôl y peilot.

Cadarnhewch eich bod yn barod i ddarparu unrhyw werthusiad y gofynnir amdano.

Ydw / Nac ydw

Noder y bydd pob cynnig i gymryd rhan yn y cynllun hwn yn destun i gyflwyno gwaith papur boddhaol pellach gan gynnwys:

- Cymwysterau Perthnasol
- Gweithdrefnau yswiriant neu ymwadiadau boddhaol
- Cytuno ar rent / llogi / codi tâl addas am safle

Llofnod:

Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhoi i Gymunedau Gwledig Creadigol yn cael ei chynnal at ddibenion monitro a gwerthuso, sy'n ofynnol ar gyfer Rhaglenni Datblygu Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd a'r Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin. Er mwyn ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am sut y defnyddir eich gwybodaeth, sut rydym yn cynnal diogelwch eich gwybodaeth a'ch hawliau i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch, cysylltwch â: Victoria Trundle yn: Yr Anecs, Hen Neuadd, Y Bont-faen, CF71 7AH. Llinell uniongyrchol 01446 775118 neu drwy [Vrtrundle@bromorgannwg.gov.uk](mailto:Vrtrundle@bromorgannwg.gov.uk).

Rwy'n cydsynio i'r uchod i gyd ac yn datgan bod y wybodaeth yn y ffurflen gais hon yn gywir, ac ar ran:

(enw'r sefydliad neu'r unigolyn)

Llofnod:

Dyddiad:

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl i chi gwblhau eich cais, e-bostiwch ef i:

Madeleine Sims

[msims@bromorgannwg.gov.uk](mailto:msims@bromorgannwg.gov.uk)

Y dyddiad cau yw 12:00pm ar 11<sup>eg</sup> Mehefin 2019.

Efallai y bydd y Panel Sgorio Ceisiadau eisiau cyfarfod â chi i drafod eich digwyddiad ymhellach. Rydym wedi dyrannu amser o 12<sup>fed</sup>- 20<sup>fed</sup> Mehefin i gwrdd ag ymgeiswyr os oes angen. Rhowch wybod i'r tîm Cymunedau Gwledig Creadigol os nad ydych ar gael i drafod eich digwyddiad gyda'r panel yn ystod y cyfnod hwn.

Os ydych yn llwyddiannus, bydd y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol yn cysylltu â chi ar y rownd gyntaf o grantiau ar 21<sup>ain</sup> Mehefin, yna unwaith eto ar 10<sup>fed</sup> Gorffennaf 2019, gyda llythyr cynnig a fydd yn cynnwys manylion am unrhyw gostau sy'n ofynnol gan y cyfranogwyr i gymryd rhan yn y peilot. Os yw'n aflwyddiannus ar y cam hwn, gall y tîm Cymunedau Gwledig Creadigol gynnig rhywfaint o adborth a byddant yn helpu i'ch cyfeirio at gymorth gan sefydliadau eraill a allai eich helpu ar yr adeg hon.